**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD 2003 - 2004**

## 1. Rhagair

1.1 Mae Rheol Sefydlog 15 yn nodi y bydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 26 Mehefin 2003 a 31 Mawrth 2004.

## 2. Aelodaeth

2.1 Yn ystod y flwyddyn, bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Nick Bourne | Ieuan Wyn Jones |
| Rosemary Butler | Sandy Mewies (Cadeirydd) |
| Christine Chapman | Jonathan Morgan |
| Michael German | Rhodri Morgan |
| Christine Gwyther | Rhodri Glyn Thomas |

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod hwn, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 7 o achlysuron. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn gyhoeddus. Ar 13 Tachwedd 2003, cyfarfu'r Pwyllgor ym Mrwsel.

## 4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Nodir cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 15, a gaiff ei gynnwys yn atodiad 1.

4.2 Yn fras, diben y Pwyllgor yw sicrhau bod y Cynulliad yn mabwysiadu ffordd strategol gydlynol o weithio mewn cysylltiad ag Ewrop, a chenhedloedd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfrifoldebau'r Cynulliad yn cael eu cydgysylltu wrth ymdrin â'r Undeb Ewropeaidd ymhob un o'r pwyllgorau pwnc.

4.3. Er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth ymysg Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr o Gymru mewn amrywiol sefydliadau Ewropeaidd, mae Rheolau Sefydlog yn rhoi cyfle i Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop a chynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Mae'r pwyllgor wedi ymestyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr o Gymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Nodir manylion y gwahoddedigion sefydlog yn Atodiad 2.

## 5. Gwelliannau i Reol Sefydlog 15

5. 1 Ym mis Mehefin 2003, bu'r Pwyllgor yn trafod rôl Gwahoddedigion Sefydlog a chynigiwyd gwelliannau i Reol Sefydlog 15 sef y dylai holl gynrychiolaeth Pwyllgor y Rhanbarthau eilyddio, a rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor gael eu dirprwyo. Gwnaed y gwelliannau hyn mewn penderfyniad gan y Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd 2003.

5.2 Ar 4 Rhagfyr 2003, cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio Rheol Sefydlog 15 i gynnwys y geiriau *'deddfwriaeth arfaethedig'* yn 15.3, er mwyn nodi'n bendant fod cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys cadw trosolwg strategol dros drefniadau'r Cynulliad ar gyfer ystyried deddfwriaeth.

5.3 Roedd ychwanegu'r geiriau, "*rhanbarthau, cenhedloedd eraill a (sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd)"* yn 15.1 (i) a *"ac ymwneud y Cynulliad â chyrff Ewropeaidd a rhyngwladol"* yn 15.1 (iv) yn egluro cylch gwaith y Pwyllgor i nodi'n eglur mai ef sy'n gyfrifol am adolygu'r berthynas ag Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE ac ymwneud y Cynulliad â sefydliadau yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau rhyngwladol nad ydynt yn perthyn i'r Undeb.

5.4 Gwnaeth trydydd gwelliant ddarpariaeth i'r Cynulliad weithredu trefniadau ar gyfer monitro gweithredu sy'n mynd yn groes i egwyddorion sybsidaredd a nodir yng Nghyfansoddiad drafft yr UE (gweler 6.23 isod), a fyddai'n dod i rym pe cytunir ar y Cyfansoddiad ac y'i cadarnheir:

*"15.4 Rhaid i'r Pwyllgor ystyried oblygiadau deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig o ran is-reolaeth, neu drefnu iddo gael ei ystyried, ac fe fydd yn cysylltu â Senedd y DU a chyrff deddfwriaethol datganoledig eraill wrth ystyried yr oblygiadau hyn."*

5.5 Gwnaed y gwelliannau hyn mewn penderfyniad gan y Cyfarfod Llawn ar 31 Mawrth 2004.

## 6. Crynodeb o Weithgareddau'r Pwyllgor

6.1 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar faterion Ewropeaidd ac allanol allweddol sydd o bwys i Gymru, a bu'n adolygu gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ymwneud â materion Ewropeaidd. Mewn blwyddyn pan ehangwyd yr Undeb Ewropeaidd o 15 i 25 Aelod-Wladwriaeth, mae materion allweddol wedi cynnwys datblygu cyfansoddiad drafft yr UE a rôl y rhanbarthau Ewropeaidd o dan y cytundeb cyfansoddiadol newydd, a diwygio polisi rhanbarthol, gan gynnwys dyfodol rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006.

6.2 Un o'r datblygiadau arwyddocaol yng ngwaith y Pwyllgor fu sefydlu system ar gyfer craffu ar ddogfennau'r UE a osodwyd gyda Senedd y DU.

**Cysylltiadau gyda rhanbarthau, cenhedloedd a sefydliadau eraill yr Undeb Ewropeaidd**

6.3 Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor adolygu cysylltiadau'r Cynulliad gyda rhanbarthau, cenhedloedd a sefydliadau eraill yr Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau hynny am anghenion Cymru. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan Brif Weinidog Cymru ar berthynas Llywodraeth Cynulliad Cymru â sefydliadau Ewropeaidd, a materion sy'n berthnasol i Gymru yn Ewrop a'r byd yn ehangach.

***Pwyllgor y Rhanbarthau a sefydliadau eraill***

6.4 Mae un o aelodau'r pwyllgor, Rosemary Butler AC yn aelod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau, ac mae'r eilydd Janet Davies AC hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel Gwahoddedig Sefydlog i gyflwyno adroddiad rheolaidd ar weithgareddau Pwyllgor y Rhanbarthau.

***Blaenoriaethau Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd***

6.5 Ym mis Hydref 2003, bu Minister Capitani o Lysgenhadaeth yr Eidal yn y DU yn annerch y Pwyllgor ynglyn â blaenoriaethau Llysgenhadaeth yr Eidal yn yr UE yn ystod cyfnod pwysig ym mhroses y cytundeb cyfansoddiadol. Ym mis Rhagfyr 2003, bu Llysgennad Iwerddon yn y DU, Daithi O Ceallaigh, a Chwnsler Cyffredinol Iwerddon yng Nghymru, Jim Carroll, yn trafod cynlluniau ar gyfer Llywyddiaeth Iwerddon o fis Ionawr 2004, ar sail rhaglen 12 mis a luniwyd ar y cyd gyda Llywyddiaeth yr Iseldiroedd a fyddai'n llywyddu ar ôl Iwerddon.

***Cyfarfod ym Mrwsel***

6.6 Cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor ar 13 Tachwedd 2003 ym Mrwsel i hwyluso presenoldeb Aelodau Senedd Ewrop, yn ogystal ag uwch swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, cynrychiolwyr UK Rep a chysylltiadau allweddol eraill ym Mrwsel. Siaradodd Jill Evans ASE gyda'r Pwyllgor ynghylch Cylch Masnach diweddaraf Sefydliad Masnach y Byd a Masnach Deg, ynghyd â chynrychiolwyr o Oxfam International, Oxfam Cymru, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Masnach y Comisiwn Ewropeaidd ac UK Rep. Dwy o themâu eraill y cyfarfod oedd dyfodol Cronfeydd Strwythurol (gweler 6.18 a 6.19 isod) a Chyfansoddiad drafft yr UE (gweler 6.21 a 6.22 isod). Yn ystod y dydd, bu Aelodau hefyd yn cyfarfod â swyddogion sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mrwsel, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Canolfan Ewropeaidd Cymru ac Aelodau Senedd Ewrop. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnal o leiaf un cyfarfod y flwyddyn ym Mrwsel, a chynhelir y cyfarfod nesaf yn ystod tymor yr hydref 2004.

## Trefniadau cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion Ewropeaidd

### *Cydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU*

6.7 Mynychodd Syr Stephen Wall, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Ewrop Swyddfa'r Cabinet, gyfarfod ym mis Hydref 2003 i siarad am rôl y swyddfa honno ac am drefniadau cysylltu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad. Rôl Ysgrifenyddiaeth Ewrop ers i'r DU ymuno â'r UE fu cydgysylltu polisi Llywodraeth y DU a rheoli'r broses sy'n arwain at ystyried materion gan Lys Cyfiawnder Ewrop pan fydd anghytundeb. Awgrymodd Syr Stephen bod angen i'r rhai sy'n rhan o'r trafodaethau feddwl mwy am weithredu cyfarwyddebau yn ystod trafodaethau yn y dyfodol, gan ei bod mor rhwydd cael eich dal yn y broses o hyrwyddo sefyllfa'r DU.

### *Cydgysylltu'r UE yn y Cynulliad*

6.8 Yn ystod mis Mawrth 2004, bu'r Pwyllgor yn trafod trefniadau ar gyfer cydgysylltu materion sy'n ymwneud â'r UE yn y Cynulliad gyda'r is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol (EEAD). Bu'n ystyried y berthynas rhwng EEAD ac is-adrannau polisi'r Cynulliad; sut y mae is-adran EEAD yn gweithio gydag Ysgrifenyddiaeth UE Swyddfa'r Cabinet o dan y rheolau concordat er mwyn sicrhau bod y gwaith o drosi yn cael ei gynnal mewn pryd; a phresenoldeb swyddogion y Cynulliad mewn cyfarfodydd wythnosol rhwng pennaeth Ysgrifenyddiaeth Ewrop Swyddfa'r Cabinet a phennaeth UK Rep pan fydd eitemau perthnasol ar yr agenda. Nodwyd y byddai Llywyddiaeth y DU sydd ar ddod yn golygu y byddai EEAD yn ysgwyddo rôl gydgysylltiol ar gyfer Cymru. Cynyddwyd nifer y staff sy'n gweithio yn swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mrwsel ac roedd Aelodau yn falch o glywed bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl feysydd polisi.

### *Adroddiad ar Gyfarfod Cadeiryddion EC-UK*

6.9 Cynhaliwyd cyfarfod defnyddiol yn Aberdeen ar 12 Ionawr 2004 rhwng Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd yn y DU. Roedd llawer o themâu yn debyg rhwng rhaglenni gwaith Pwyllgorau'r DU. Hefyd, bu'r Cadeiryddion yn trafod sut y cynhelir gwaith craffu ar ddeddfwriaeth yr UE, a gwnaed trefniadau ar gyfer gweithgareddau i nodi'r ehangiad ar 1 Mai. Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn cynnal cyfarfod nesaf Cadeiryddion Pwyllgor EC-UK yn ystod tymor yr hydref 2004.

## Dulliau a gweithdrefnau ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd

### *Craffu ar Ddeddfwriaeth yr UE (Rheol Sefydlog 9.8(i) a Rheol Sefydlog 15)*

6.10 Yn ystod ei gyfarfod ar 9 Hydref, cytunodd y Pwyllgor ar gynigion am waith craffu mwy rhagweithiol ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Wedi hynny, cymeradwyodd Panel y Cadeiryddion gynigion y Pwyllgor. Ymhob cyfarfod,

mae'r Pwyllgor yn ystyried rhestr o holl ddogfennau'r UE a osodwyd yn Senedd y DU ers y cyfarfod blaenorol.

6.11 Mae nifer o ddogfennau wedi'u dewis er mwyn eu hystyried ymhellach, naill ai gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol neu gan y Pwyllgorau Pwnc. Gwnaeth y Pwyllgor gais am sylwadau'r Pwyllgorau Pwnc ar ymgynghoriad am newidiadau i'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, a chyflwynwyd ymateb cydgysylltiol gerbron y Comisiwn Ewropeaidd. Mae cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad er mwyn ystyried cyfran o gynigion amgylcheddol yr UE wedi deillio o hyn hefyd. Bydd y Pwyllgor yn gwerthuso'r cynnydd a wneir gyda'r system graffu yn ystod tymor yr haf 2004.

### *Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd*

6.12 Ystyriodd y Pwyllgor ddadansoddiad o Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn ym mis Mehefin 2003 ac yn ystod mis Rhagfyr 2003, a dosbarthwyd y Rhaglen Waith i Gadeiryddion Pwyllgorau eraill y Cynulliad i'w hystyried. Datblygwyd argymhelliad y Pwyllgor i gynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i ystyried casgliad o gynigion amgylcheddol yr UE.

### *Adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc*

6.13 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau ynglyn â sut yr oedd materion Ewropeaidd yn cael eu hystyried yn rhaglen waith y Pwyllgorau canlynol: yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, a Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Bwriedir cynnal cyflwyniadau pellach ar gyfer y blaenraglen waith.

### Cysylltiadau â rhanbarthau a chenhedloedd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd ac ymwneud y Cynulliad â chyrff Ewropeaidd a rhyngwladol

6.14 Darparodd Prif Weinidog Cymru adroddiadau manwl yn rheolaidd ar gyfarfodydd, cenadaethau, ymweliadau a gweithgareddau eraill i hyrwyddo Cymru o fewn yr UE a thu hwnt. Hefyd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan Wahoddedigion Sefydlog Pwyllgor y Rhanbarthau, ECOSOC a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn adolygu manteision bod yn aelod o amrywiol gyrff Ewropeaidd a rhyngwladol, gan gytuno i edrych ar bob corff ar ei ben ei hun er mwyn deall ei effeithiolrwydd wrth fodloni dibenion y Cynulliad. Yn ystod mis Ionawr 2004, cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywydd am waith Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CLARE), sefydliad sy'n cynnig cyfle i ddysgu o brofiadau cynulliadau rhanbarthol eraill.

### *Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ar Ddydd Gwyl Ddewi*

6.15 Hysbyswyd y Pwyllgor o'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo Dydd Gwyl Ddewi dramor. Bu mwy nag wythdeg ac wyth o is-genhadon, llysgenadaethau ac uchel gomisiynau yn rhan o fenter o'r enw

'chwifio baner dros Gymru' a chynhaliwyd digwyddiadau eraill a oedd yn gysylltiedig â Chymru ar y pryd i ddathlu Dydd Gwyl Ddewi. Roedd gweithgareddau yn cynnwys agor Canolfan Ryngwladol Cymru yn Efrog Newydd yn swyddogol a goleuo Adeilad yr Empire State gyda lliwiau baner Cymru.

***Cyflwyniad gan y Cyngor Prydeinig***

6.16 Ym mis Mawrth 2004, rhoddodd Cyfarwyddwyr Cyngor Prydeinig Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru gyflwyniad gerbron y Pwyllgor yn trafod gweithgareddau cyfredol ac arfaethedig eu sefydliadau i hyrwyddo cyfnewidfeydd diwylliannol ac addysgiadol ac i dynnu sylw at gyfraniadau nodedig Cymru i'r DU gyfan.

**Monitro'r effaith a'r canlyniadau cyffredinol a ddaw i Gymru yn sgil polisïau yr ymdrinnir â hwy gan yr Undeb Ewropeaidd**

6.17 Roedd materion allweddol a adolygwyd yn barhaus gan y Pwyllgor yn ystod 2003-04 yn cynnwys:

***Diwygio polisi rhanbarthol***

6.18 Trwy gydol y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried datblygiad y cynigion i ddiwygio polisi rhanbarthol Ewropeaidd a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cymorth ar ôl 2006 i 'ranbarthau a effeithir yn ystadegol' megis Cymru. Cynhaliwyd dau gyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i drafod dyfodol rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Gwnaed cyflwyniadau gan uwch swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, Graham Meadows, Cyfarwyddwr Cyffredinol Polisi Rhanbarthol Dros Dro a Manfred Beschel, Chef De L'Unité, DG Regio C1 (Iwerddon a'r DU), a gan Dimitri Pur o Lysgenhadaeth Gweriniaeth Slofenia i'r Undeb Ewropeaidd. Mynychodd swyddogion o'r Adran Masnach a Diwydiant a Thrysorlys ei Mawrhydi gyfarfodydd y Pwyllgor ddwy waith er mwyn cyflwyno cynigion diwygio Llywodraeth y DU 'A modern regional policy for the United Kingdom', a chyflwynwyd ymateb swyddogol gan y ddau Bwyllgor.

6.19 Ym mis Chwefror 2004, bu'r Pwyllgor yn trafod dogfen 'Financial Perspectives' y Comisiwn Ewropeaidd, a'i drydydd adroddiad ar Bolisi Cydlyniant. Hefyd, anogwyd y Pwyllgorau Pwnc i ystyried yr adroddiad cydlyniant, a drafodwyd yn ddiweddarach gan y Cyfarfod Llawn. Bu Prif Weinidog Cymru yn rhoi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd trafodaethau Aelod-Wladwriaethau ar Bersbectif Ariannol yr UE, polisi cydlyniant a chynigion ar gyfer dyfodol ariannu polisi rhanbarthol ar ôl 2006.

***Ehangu'r Undeb Ewropeaidd***

6.20 Ystyriwyd effaith yr ehangu a tynnwyd sylw at waith Gweithgor Ehangu'r Cynulliad gan y Pwyllgor yn ogystal ag at weithgareddau a oedd ar y gweill yng Nghymru i nodi'r ffaith fod deg Aelod-Wladwriaeth newydd wedi'u derbyn i'r UE. Bu aelodau yn trafod effaith yr ehangu gyda Chennad Latfia a oedd ar fin cael

ei dderbyn, a Charles Grant o Gyfarwyddiaeth UE y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad.

### *Y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop a Chyfansoddiad Drafft yr UE*

6.21 Yn ystod ei gyfarfod ym Mrwsel ym mis Tachwedd, bu'r Pwyllgor yn trafod Cyfansoddiad drafft yr UE gyda William Sleath o Dasglu'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Confensiwn, Freddy Evens o Lywodraeth Ranbarthol Fflandrys, a Michael Aron o Gynrychiolaeth Sefydlog y DU i'r UE (UK Rep). Bu'r Pwyllgor yn trafod sut y gallai gweinyddiaethau datganoledig effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau yn y Gynhadledd Rynglywodraethol (ICG). Hefyd, nodwyd bod papur ar y cyd yn cynnwys cynigion am fwy o gyfranogiad gan y rhanbarthau, a gyflwynwyd i'r ICG gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi ei groesawu'n fawr gan Aelod-Wladwriaethau a'r rhanbarthau.

6.22 Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ICG yn rheolaidd gan Brif Weinidog Cymru, a gwnaed cyflwyniad gan y Cadeirydd wrth iddi fynychu cynhadledd Senedd Ewrop ar y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop. Hefyd, trafodwyd y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y Cytundeb Cyfansoddiadol drafft gyda chynrychiolwyr diplomyddol o'r Eidal ac o Iwerddon, deiliaid Llywyddiaeth yr UE yn ystod 2003-04.

6.23 Bu'r Pwyllgor yn ystyried mecanweithiau ar gyfer gweithredu'r cynigion sydd yn y Cytundeb drafft ar gyfer 'system rhybudd cynnar' i ystyried gweithredu sy'n mynd yn groes i egwyddorion sybsidiaredd, ac ar gyfer trafod â Senedd y DU i geisio llunio barn resymedig bosibl am gynigion. Cytunwyd mai is-grwp fyddai'r dewis amgen pe cytunir ar y cynigion ar sybsidiaredd yn y Cytundeb.

### *Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin*

6.24 Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad er mwyn ceisio gwybodaeth ynglyn â thrafodaethau i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

### *Cymryd rhan mewn Etholiadau Ewropeaidd*

6.25 Bu'r Sefydliad Dinasyddiaeth ar ymweliad â Chaerdydd fel rhan o'i ymgyrch 'Ewch Allan i Bleidleisio' ac aeth Emma Whiteacre ati i hysbysu'r Pwyllgor am fentrau i annog democratiaeth a chyfranogaeth weithredol yn ystod etholiadau Ewropeaidd 2004. Roedd aelodau'r Pwyllgor ymysg y rhai a gawsant wahoddiad i un o ddigwyddiadau'r ymgyrch yn Stadiwm y Mileniwm.

## 7. MATERION TRAWSBYNCIOL

### Cyfle Cyfartal

7.1 Ar ran y Pwyllgor, bu'r Cadeirydd yn cyfrannu'r wybodaeth ffeithiol i'r adolygiad o brif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

**Datblygu cynaliadwy**

7.2 Bydd y Pwyllgor yn ystyried Cynllun Gweithredu Drafft Llywodraeth y Cynulliad ar Ddatblygu Cynaliadwy mewn cyfarfod yn ystod tymor yr haf 2004.

7.3 Mae system graffu'r UE yn sicrhau y gellid adnabod dogfennau'r UE sy'n berthnasol i gydraddoldeb a datblygu cynaliadwy y gellid eu cyfeirio at y Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad i'w hystyried.

## 8. Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol

8.1 Nodir blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2004-2005 yn y Flaenraglen Waith. Mae'r prif feysydd gwaith yn cynnwys:

- Adroddiadau rheolaidd gan Brif Weinidog Cymru
- Adroddiadau rheolaidd gan Aelodau Senedd Ewrop o Gymru, Aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau, Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru ac Aelodau o ECOSOC
- Gwaith craffu rheolaidd ar gynigion Ewropeaidd a osodwyd yn Senedd y DU ac adolygiad o broses graffu'r UE yn y Cynulliad
- Adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad ar eu gwaith craffu ar faterion Ewropeaidd
- Rhaglen Waith Flynyddol Comisiwn yr UE - adolygiadau chwe misol
- Cyflwyniadau gan gynrychiolwyr Aelod-Wladwriaethau sy'n cynnal Llywyddiaeth yr UE ddwy waith y flwyddyn
- Cyrff yn yr UE, a chyrff rhyngwladol yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn flynyddol
- Adroddiad blynyddol y Pwyllgor
- Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy
- Strategaeth Cysylltiadau Allanol y Cynulliad a gwaith Masnach Cymru Rhyngwladol, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru wrth hyrwyddo Cymru
- Diwygio polisi rhanbarthol
- Y wybodaeth ddiweddaraf ar y cyfansoddiad drafft Ewropeaidd
- Datblygiadau gydag Agenda Lisbon
- Y diweddaraf ar drafodaethau Sefydliad Masnach y Byd ar agenda Ddatblygu Doha
- Y diweddaraf am waith y Pwyllgor Paratoi ar gyfer yr Ewro

**Sandy Mewies AC**
**Y Cadeirydd**

**Atodiad 1**

## RHEOL SEFYDLOG 15 - Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

### Teitl a Chylch Gwaith

15.1 Bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a rhaid iddo gadw llygad:

(i) ar berthynas y Cynulliad â rhanbarthau, cenhedloedd eraill a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau am anghenion Cymru;

(ii) ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig am faterion Ewropeaidd;

(iii) ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol;

(iv) ar berthynas y Cynulliad â rhanbarthau a chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac ymwneud y Cynulliad â chyrff Ewropeaidd a rhyngwladol.

15.2 Rhaid i'r Pwyllgor fonitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, a sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

15.3. Rhaid i'r Pwyllgor osgoi dyblygu gwaith Pwyllgorau Pwnc perthnasol ond caiff dynnu sylw Pwyllgorau Pwnc at faterion penodol, ac os yw'r Pwyllgor Pwnc perthnasol yn cytuno, caiff ystyried unrhyw fater sy'n dod o dan Rheolau Sefydlog 15.1 neu 15.2 sydd fel arall yn gyfan gwbl o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Pwnc hwnnw. Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

15.4 Rhaid i'r Pwyllgor ystyried oblygiadau deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig o ran is-reolaeth, neu drefnu iddo gael ei ystyried, ac fe fydd yn cysylltu â Senedd y DU a chyrff deddfwriaethol datganoledig eraill wrth ystyried yr oblygiadau hyn.

### Aelodaeth

15.5 Rhaid i'r Cynulliad ethol aelodau'r Pwyllgor gan dalu sylw i'r fantais o gael cynrychiolaeth o bob Pwyllgor Pwnc ar y Pwyllgor a sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn ei aelodaeth. Rhaid i'r Cynulliad ethol un o aelodau'r Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog.

15.6 Caniateir i aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd gael ei gynrychioli gan aelod o'r un grwp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor neu mewn rhan o un o'i gyfarfodydd. Wrth roi’r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi’r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

15.7 Caiff Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan gynhelir y rheiny yn gyhoeddus, ond ni chânt bleidleisio.

15.8 Cyn unrhyw gyfarfod, caiff Aelodau o'r Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni chânt bleidleisio. Gall Aelodau hefyd ysgrifennu at y Cadeirydd i wneud cais i’w sylwadau ar unrhyw agwedd o waith y Pwyllgor gael eu rhoi gerbron y Pwyllgor i’w hystyried yn ei gyfarfod nesaf a bydd y cadeirydd yn trefnu i hynny ddigwydd.

**Adroddiadau**

15.9 Rhaid i'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

**Atodiad 2**

## Gwahoddedigion Sefydlog sy'n mynychu Cyfarfodydd y Pwyllgor

Mynychodd gwahoddedigion sefydlog gyfarfodydd ar y dyddiadau a nodir isod:

### Aelodau Senedd Ewrop

Jill Evans - 13 Tachwedd 2003
Eluned Morgan - 26 Mehefin 2003

### Y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol

Rose D'Sa - 9 Hydref 2003, 13 Tachwedd 2003

### Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru

Janet Royall - 26 Mehefin 2003, 9 Hydref 2003, 13 Tachwedd 2003, 4 Rhagfyr 2003, 22 Ionawr 2004, 26 Chwefror 2004, 25 Mawrth 04

### Pwyllgor y Rhanbarthau

Rosemary Butler AC (aelod llawn) – 13 Tachwedd 2003, 4 Rhagfyr 2003, 22 Ionawr 2004, 26 Chwefror 2004, 25 Mawrth 2004.

Janet Davies AC (eilydd) - 4 Rhagfyr 2003, 22 Ionawr 2004, 26 Chwefror 2004, 25 Mawrth 2004.